OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2513 (Cy. 275)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Gwahanol Fannau rhwng Llandinam a Chemais, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Hydref 2011* |
| *Yn dod i rym* | *1 Tachwedd 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd y Drenewydd – Aberystwyth (yr A470), Cefnffordd Caersŵs – Machynlleth (yr A470) a Chefnffordd Glantwymyn – Mallwyd (yr A470) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Tachwedd 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Gwahanol Fannau rhwng Llandinam a Chemais, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 1 Tachwedd 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" *("the lengths of the trunk roads")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A470 rhwng Llandinam a Chemais yn Sir Powys a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.